

TRRS4010C – IDDEWIAETH A CHRISTNOGAETH Y PATRYMAU CRISTNOGOL

Yn y flwyddyn 2013, roedd oddeutu 2.2 biliwn o Gristnogion yn y byd. O ganlyniad, Cristnogaeth yw'r grefydd gyda'r nifer fwyaf o ddilynwyr. Seilir y grefydd ar ddysgeidiaeth Iesu Grist fel y'i nodir yn y Testament Newydd yn ogystal ag ar fyfyrddau diwinyddol Cristnogion dros yr ugain ganrif ers marwolaeth Iesu. O ganlyniad, mae Cristnogion yn credu bod Iesu yn fab Duw, yn 'Dduw mewn gwirionedd' ac yn 'ddyn mewn gwirionedd', a achubodd y ddynolryw gyfan drwy ei fywyd, marwolaeth ac atgyfodiad. Yn ogystal, mae dogfennau'r Testament Newydd yn ceisio dangos sut mae bywyd Iesu yn cyflawni proffwydoliaethau'r Hen Destament ac felly yn honni cysylltiad agos rhwng hanes Israel a dyfodiad Iesu ac felly hefyd â'r Eglwys Gristnogol. Ond, ar y cyfan, mae'r traddodiadau Cristnogol yn dal bod y Beibl ei hun yn cynnwys prif honiadau'r ffydd Gristnogol. Mynegir yr honiadau hyn yn y credoau ecwmenaidd megis Credo'r Apostolion a Chredo Nicea (Nicea-Caergystennin), sydd yn amlinellu creu'r byd gan Dduw'r Tad a anfonodd ei Fab i'r byd lle dioddefodd ac yna bu farw, a gladdwyd, a gyfododd o feirw, ac wedyn a esgynnodd i'r nef yn eiriolwr dros y ddynolryw.

Mae Cristnogaeth yn cael ei mynegi mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mae tri phrif batrwm o Gristnogaeth, sef traddodiad yr Eglwysi Uniongred Dwyreiniol (sydd yn cael ei rhannu'n nifer o gymundebau gwahanol), y traddodiad Catholig Rufeinig a'r mynegiannau amrywiol o Brotestaniaeth. Yn ogystal, ceir nifer o fynegiannau o Gristnogaeth sydd ond ar gael mewn ardaloedd penodol ac sydd yn wahanol ar ran ymarfer a chred i'r tri a enwir uchod. Yn eu plith, er enghraifft, mae'r Eglwys Goptig a leolir yn yr Aifft ac sydd yn perthyn yn bennaf i'r Eglwysi Uniongred Dwyreiniol. Byddwn yn canolbwyntio ar y tri phrif batrwm. Wrth edrych ar y rhain, mae'n amlwg eu bod yn wahanol iawn yn eu hymarferion ac yn y ddysgeidiaeth y maent yn pwysleisio, er gwaethaf y tebygrwydd rhyngddynt yn eu cred. O ganlyniad, mae ysgolheigiau megis Hans Küng, Stephen Sykes a John de Gruchy, yn honni nad oes y fath beth a 'Christnogaeth'. Yn hytrach, mae 'Cristnogaethau'. Mae'n bwysig i nodi bod yr honiad hwn yn seiliedig yn y gred mai ei hymarferion yn hytrach na'i chred sydd bwysicaf wrth geisio dynodi mudiadau yn rhai Cristnogol. Er bod gwahaniaethau ym manylion credoau'r tri phrif batrwm, fe'u hunwyd ar sail nifer o gredoau diwinyddol megis ymgnewdoliad Duw yng Nghrist, a oedd yn wir Dduw ac yn wir ddyn, ac a fu farw ac a atgyfododd ac sydd felly yn iachawdwr y ddynolryw.

Yn ôl y ddysgeidiaeth Gristnogol, mae Iesu yn achub y ddynolryw o 'bechod'. Yn bennaf, ymddieithriad oddi wrth Dduw yw pechod. Ar yr un pryd, mae 'pechod' yn cynrychioli'r cyflwr ddynol yn gyffredinol tra hefyd yn disgrifio gweithredoedd penodol. Mewn geiriau eraill, mae'r ddynolryw yn byw mewn

cyflwr o bechod, sef ymddieithriad oddi wrth Dduw, ond maent hefyd yn pechu (sef y ferf), h.y., maent yn gwneud pethau sydd yn ddrwg. Gall hyn fod yn fater o feddwl yn ddrwg (megis chwant, blys, cenfigen, casineb) ond mae a wnelo pechod hefyd â gweithredoedd drwg (megis godinebu, lladrata, glythineb, llofruddio, ac ati). Yn sylfaenol, mae'r ddysgeidiaeth Gristnogol yn honni bod y ddynolryw heb y gallu i osgoi pechod ac felly bod Duw, yng Nghrist, wedi gwneud rhywbeth ar eu rhan er mwyn datrys eu problem sylfaenol, sef eu pechod cynhenid. Mewn rhai cymundebau Cristnogol, dëllir ei farwolaeth yn nhermau 'lawn' lle mae Duw yng Nghrist yn dioddef y cosb am bechod, sef y cosb y dylai'r ddynolryw ei ddioddef. Dioddefodd Iesu er mwyn i fodau dynol dderbyn maddeuant ac yna, yng ngoleuni Crist (neu hyd yn oed fel mae Duw yn gweld bodau dynol drwy Grist) gallent fyw bywyd newydd, sef bywyd Teyrnas Dduw, sydd ar gael iddynt yn y presennol ond a chaiff ei gyflawni'n llwyr yn nhragwyddoldeb. Mae diwinyddiaeth Gristnogol yn dangos bod goblygiadau i'r honiadau hyn ar gyfer y presennol ac ar gyfer y dyfodol. Er bod pechod a marwolaeth yn dal i fod yn y presennol, maent wedi cael eu beirniadu gan Grist ac felly torrodd eu grym dros fodau dynol. Mae eu tynged wedi cael ei benderfynu er na welir hyn yn llwyr tan yr 'eschaton' (sef, 'y diwedd'), pan sefydlir creadigaeth newydd, byd a nefoedd newydd, a gwelir diwedd ar bopeth sydd yn bechadurus, popeth sydd yn niweidiol a phopeth sydd yn ddinistriol. Yna bydd y creadigaeth i gyd – dynol, anifeilaidd a llysieuol – yn unol â bwriad Duw. Oherwydd y datganiad Beiblaidd bod hyn yn wir, mae goblygiadau iddo ar gyfer y presennol, lle bo disgyblion Crist yn gallu byw *fel pe bai*'r cyflawniad terfynol eisoes wedi digwydd. O ganlyniad, swyddogaeth disgyblion Crist yn y byd yw trawsffurfio'r byd yn ôl ewyllys Duw. Gwelir hyn yng 'Ngweddi'r Arglwydd', gweddi a nodwyd yn y Testament Newydd fel un a roddodd Iesu i'w ddisgyblion ac sydd, fel arfer, yn rhan o wasanaethau addoli Cristnogol. Dyma'r gweddi (ar ei gwedd draddodiadol):

Ein Tad,
Yr hwn wyt yn y nefoedd,
Sancteiddier dy enw.
Deler dy deyrnas,
Gwneler dy ewyllys,
Megis yn y nef felly ar y ddaear hefyd.
A dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol,
A maddau i ni ein dyledion
Fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth
Eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r nerth a'r gogoniant,
Yn oes oesoedd.

Mae'r cymal sydd yn gweddïo 'gwneled dy ewyllys megis yn y nef felly ar y ddaear hefyd' yn cyfleu'r gred y dylai Cristnogion weithio yn y byd presennol er mwyn gweld teyrnas Dduw yn cael ei sefydlu ar y ddaear.

Patrwm yr Eglwysi Uniongred Dwyreiniol

Mae'r Eglwysi Uniongred Dwyreiniol (Rwsia, dwyrain Ewrop, Groeg yn ogystal â Lebanon) a'r Eglwysi Uniongred Orientalaid (Ethiopia, Armenia, yr Aifft, Syria, Irac, Iran ac India) yn rhannu nifer o nodweddion cyffredin sydd yn sicrhau y gall enwi patrwm yr eglwysi 'Uniongred'. Mae'r term 'Uniongred' yn deillio o'u cred yn y parhad hanesyddol rhyngddynt a'r disgyblion ac apostolion ac felly gyda Christ ei hun. O ganlyniad, diogelent y 'gwir' ffydd, neu'r ffydd 'uniongred'. Mae pob un o'r Eglwysi Uniongred yn annibynnol o'i chyd-eglwysi; nid oes un cynrychiolydd awdurdodol (yn anhebyg i'r Eglwys Gatholig Rufeinig). O ran eu trefn a strwythur, dibynna'r Eglwysi Uniongred ar awdurdod eu Cyngorau, yn seiliedig ar y cysyniad o *koinonia* (cyfeillach) sydd i'w weld yn y Testament Newydd. Ar ben hyn, mae'r Eglwysi Uniongred yn pwysleisio'r cysyniad o *paradosis*, gair sydd ag ystyr 'traddodiad' ond a ddëllir yn nhermau trosglwyddo dysgeidiaeth Iesu, ei ddisgyblion a'r apostolion, o oes i oes mewn ffordd ddeinamig. Dysgeidiaeth arall sydd yn unigryw i'r Eglwysi Uniongred yw *theosis*, y broses lle cymer aelodau'r Eglwys arnynt y tebygrwydd i, neu undod â, Duw. Cytuna'r Eglwysi Uniongred gyda datganiadau'r saith Cyngor Ecwmenaidd cyntaf yn unig, er bod yr Eglwysi Uniongred Orientalaid ond yn cydnabod awdurdod y tri chyngor cyntaf ac, o ganlyniad, maent yn fonoffisaidd yn eu diwinyddiaeth (h.y., bod y dynol a'r dwyfol yn ffurfio un natur yng Nghrist; yn y bedwerydd Cyngor Ecwmenaidd, Cyngor Chalcedon 451, datganwyd bod Crist yn berchen dwy natur, un yn gyflawn yn ei dynoliaeth ac un yn gyflawn yn ei duwdod). Roedd 'monoffisiaeth' yn un o achosion y Rhwyg Fawr rhwng Eglwysi'r Dwyrain ac Eglwysi'r Gorllewin ym 1054. Nodweddir addoli'r Uniongred gan y defnydd o eiconau, sef lluniau arbennig yn dylunio seintiau ac unigolion pwysig hanes Cristnogaeth. Trwy fyfyrïo o flaen eicon, gall yr addolwr edrych drwyddo, fel pe bai'n ffenest, i gael mewnwelediad i fydd yr ysbryd.

Y Patrwm Catholig

Cymer yr Eglwys Gatholig ei enw o'r gair Lladin sydd yn golygu 'cyffredinol'. Daeth y term yn boblogaidd yn ystod canrifoedd cynharaf yr eglwys er mwyn dynodi'r gwir eglwys, lle mae'r un pethau yn cael eu credu a'u hymarfer, ac mewn gwrthgyferbyniad â'r mudiadau heresiol a oedd yn mynd yn groes i unfrydedd farn yn yr Eglwys ac yn ceisio sefydlu credoau ac ymarferion newydd a gwahanol. Datblygodd ei chysylltiad â Rhufain dros y canrifoedd, yn rhannol oherwydd mai Rhufain oedd lleoliad merthyrdod y disgybl Pedr a'r apostol Paul,

tra Rhufain hefyd oedd canolfan yr Ymherodraeth Rufeinig. Ar ôl y Diwygiad Protestannaidd, tueddwyd yn gynyddol i sôn am yr Eglwys Gatholig Rufeinig.

Mae'r Eglwys Gatholig yn hierarchaidd ac yn canoli ar awdurdod yr esgobion. Mae byd-olwg yr Eglwys yn gweld Duw yn cyfathrebu ag arweinydd yr Eglwys (y Pab) sydd wedyn yn cyfarthrebu gyda'r Cardinalau a'r Esgobion, sydd yn trosglwyddo'r neges ddwyfol i'r offeiriad sydd â'r cyfrifoldeb o gyfleu'r neges i'r bobl leyg (y bobl gyffredin nad ydynt yn ordeiniedig). Mae'r Eglwys hefyd yn rheoli ei dysgeidiaeth ddiwinyddol a moesol ac mae disgwyl bod pawb sydd yn dysgu fel 'Catholic', a phawb sydd yn cymuno â'r Eglwys, yn cydffurfio â disgwyliadau'r arweinwyr a'u dealltwriaeth o'r ffydd. Hyrwyddir y rheolaeth hon drwy sicrhau litwrgi gyffredin ledled yr Eglwys ac er gwaethaf y defnydd o ieithoedd lleol, defnyddir yr un litwrgi ym mhob rhan o'r Eglwys. Gellir awgrymu bod yr Eglwys yn gweithredu o fewn 'economi sagrafennol' lle mae'r saith sagrafen (bedydd, conffyrmasiwn, penyd, ewcharist, eneiwiad, ordeinio, priodas) yn gyfryngau gras, tra bo natur i gyd, fel creadigaeth Duw, â'r potensial i fynegi'r gras yna. Canolir addoli Catholig ar ddathlu'r Offeren, lle mae'r ewcharist yn cael ei ddathlu fel ailddatganiad o aberth Crist ar y groes ac lle mae'r bara a gwin yn 'trawsylweddoli' i gorff a gwaed Crist. Ni chyfyngir defosiwn Catholig ar Grist yn unig, ond mae'n cynnwys defosiwn i Mair, mam Iesus, a'r seintiau, a phob un o'r rhain yn gweithredu fel eiriolwyr dros Gristnogion.

Y Patrwm Protestannaidd

Dechreuodd y Diwygiad Protestannaidd fel mudiad a geisiodd diwygio'r Eglwys Gatholig, mudiad a gynyddodd drwy gydol y bedwaredd ganrif a'r bymthegfed ganrif. Cyrhaeddodd y mudiad am ddiwygio'r Eglwys ei anterth gyda phrotest Martin Luther, ar 31 Hydref 1517, yn erbyn y gwerthiant o Faddeuebau (dogfennau a werthwyd gan yr Eglwys Gatholig i bobl, gan addo iddynt arhosiad byr yn y Purdan ar ôl marwolaeth, ond a werthwyd yn rhannol er mwyn codi arian i ail-adeiladu Eglwys St Pedr yn Rhufain ac i ehangu coffrau llywodraethwyr lleol). Yn raddol, torrodd y mudiad oddi wrth Gatholigiaeth, yn arbennig ar ôl Cyngor Trent (1545-63) a wrthododd pob dysgeidiaeth Brotestannaidd ac a ddiwygiodd ddogma Gatholig draddodiadol.

Mae nifer o ffrydiau gwahanol mewn Protestaniaeth, gan gynnwys Anglicaniaeth, Lutheriaeth, yr Eglwys Calfinaidd (neu Ddiwygiedig, gan gynnwys y Cynulleidfawyr a'r Presbyteriaid), y Bedyddwyr, y Methodistiaid a'r Pentecostaliaid. Beth bynnag, tuedda'r eglwys hyn i rannu nodweddion penodol. Er enghraifft, ystyrir y 'pum *solae*' fel prif nodweddion Protestaniaeth:

Sola Scriptura: bod yr awdurdod i lywodraethu'r eglwys a bod y ddysgeidiaeth Gristnogol yn dod 'o'r Ysgrythur yn unig'. O ganlyniad, y Beibl, ac nid

swyddogaeth ddysgu'r Eglwys neu'r traddodiad Cristnogol, yw'r awdurdod terfynol i ddeall y ffydd Gristnogol neu i reoli arferion Cristnogol.

Sola Fide, Sola Gratia: bod iachawdwriaeth yn dod drwy ras Duw sydd yn cael ei feddiannu gan Gristnogion drwy ffydd. Ni ellir sicrhau iachawdwriaeth drwy ymdrechion dynol am ei fod ond yn rhodd rhad Duw. Er bod 'ffydd' weithiau yn cael ei hystyried yn allu y tu mewn i rywun yn ei helpu i gredu'r efengyl Gristnogol ac i ymddiried yn Nuw, mae hefyd yn cael ei hystyried yn rhodd rhad Duw, a roddwyd i bobl Duw, er mwyn iddynt fod yn agored i dderbyn ei ras.

Solus Christus: mae iachawdwriaeth yn bosibl drwy Grist a neb arall. Hefyd, Crist yw'r unig eiriolwr rhwng Duw a'r ddynolryw. Nid yr Eglwys na'r weinidogaeth (offeiriaid, esgobion, y Pab) sydd yn dod rhwng y ddynolryw a'i Chreawdwr. Crist yn unig sydd yn cyfryngu realaeth a gwirionedd Duw yn ogystal â'i ras.

Soli Deo Gloria: dylid gwneud popeth er mwyn gogoneddu Duw a neb arall (gan gynnwys hunanogoneddu a balchder dynol. Dylai'r Cristion geisio gogoneddu Duw, ac ni ddylai geisio hunanogoniant.)

Patrymau Eraill

Awgryma Linda Woodhead fod dau draddodiad pennaf i'w dirnad yn hanes Cristnogaeth. Mae'n enwi'r ddau yn 'uwchfodol' ac yn 'fewnfodol'. Pwysleisia'r 'uwchfodol' y gwahaniaeth rhwng y ddynolryw a Duw, gyda Duw yn bodoli y tu allan i'w greadigaeth ac yn dod yn agos at fodau dynol oherwydd ei barodrwydd i ymostwng. Mewn geiriau eraill, mae Duw yn 'arall' ac felly y tu hwnt i brofiad dynol oni bai i Dduw benderfynu ymgysylltu â dynion a merched. Mae'r tri phrif batrwm, a drafodir uchod, yn perthyn i'r patrwm hwn o 'uwchfodoli'. Mae'r 'mewnfodol' yn gweld cysylltiad uniongyrchol a digyfrwng rhwng Duw a'r ddynolryw. O ganlyniad, dëllir bod Duw i'w ddarganfod yn 'mewnfodoli' ym modau dynol a'u profiadau. Mae traddodiad o gyfrinwyr yn hanes Cristnogaeth sydd yn hawlio'r cysylltiad uniongyrchol hwn, ond tueddent i aros ar gyrrion y ddysgeidiaeth Gristnogol 'swyddogol'.

Yn ogystal, mae hefyd yr hyn a all gael ei enwi'n batrwm 'modernaidd'. Dyma'r traddodiad o Gristnogaeth 'ryddfrydol' a ddatblygodd o ganlyniad i'r Aroleuo yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Datblygodd y patrwm 'modernaidd' yn wreiddiol er mwyn ceisio denu'r bobl ddysgedig a gefnodd ar grefydd o ganlyniad i ddarganfyddiadau y wybodaeth newydd. Roedd rhyddfrydiaeth ddiwinyddol, i ddechrau, yn agwedd ar y dasg apologetig (sef ffordd i amddiffyn y ffydd Gristnogol). Un o'r cyntaf i geisio'r dasg hon oedd Friedrich Schleiermacher (1768-1834). Roedd Schleiermacher yn perthyn i gylchoedd deallusol ym Merlin, a ffeindiodd fod ei ffrindiau wedi cefnu ar

grefydd oherwydd bod athroniaeth yn dechrau gosod sylfeini i foesoldeb a gwyddoniaeth yn dechrau cynnig atebion gwahanol i'r cwestiynau am wreiddiau bodolaeth (ac, wrth gwrs, yn draddodiadol, roedd y ddwy hon yn dasgau crefydd). Credai Schleiermacher fod crefydd yn beth da, ac felly ceisiodd ddarganfod rhywbeth oedd gan grefydd nad oedd yn perthyn naill ai i athroniaeth neu i wyddoniaeth. Yn ei waith pwysig, *Über die Religion: Reden an die Gebildeten unter ihren Verächtern* (1799) a'i gyfrol systemataidd arall *Der Christliche Glaube* ('Y Ffydd Gristnogol', 1828), amlinellodd ei gred fod a wnelo crefydd â 'theimlad'. Nid yr affeithiadau yn unig oedd yn ei olwg. Yn hytrach, dyma oedd y gred bod pobl, ar waelod eu bodolaeth, yn deall eu bod yn dibynnu ar un arall ar gyfer y fodolaeth honno. Duw yw'r 'arall' hwnnw. Dyma beth ddiffiniodd Schleiermacher fel 'yr ymdeimlad o ddibyniaeth eithaf'. Ni ellir goramcanu cyfraniad Schleiermacher. Roedd hyd yn oed y sawl a anghytunodd ag ef yn cydnabod ei fod wedi dechrau cyfnod newydd yn hanes diwinyddiaeth Gristnogol. Sicrhodd, drwy ei waith, fod y canolbwynt yn niwinyddiaeth yn symud o'r deall ac o athrawiaeth i ddeall profiad crefyddol, ac felly yn symud o geisio dweud rhywbeth penodol am Dduw i ddweud rhywbeth penodol am y ddynolryw.

Mae'n werth nodi un patrwm arall, sef ffenomen 'Eglwys'r Patrwm Newydd' sydd wedi ymddangos dros y degawdau diwethaf. Cyfeirir at y rhain, ambell waith, fel 'egin eglwys'. Yn sylfaenol, maent yn gynulleidfaoedd annibynnol nad ydynt yn cydffurfio i unrhyw fframwaith sefydledig o gred neu ymarfer. Maent yn pwysleisio profiad yn hytrach na dogma ac yn cyfuno ffurfiau a defodau hynafol gydag ymarferiadau cyfoes. Fel arfer, maent yn ymgynnull mewn cyddestunau nad ydynt yn eglwysig (mewn tafarnau neu ysgolion, er enghraifft) ac mae eu naws yn galluogi pobl i ganfod a datblygu eu hysbrydoliaeth eu hun yn hytrach na cheisio sicrhau eu cyd-ffurfiaeth i batrymau sydd eisoes yn bodoli.

Crynodeb

Mae Cristnogaeth yn ffenomen amrywiol. Mae nifer o ffurfiau ar Gristnogaeth sydd yn pwysleisio athrawiaethau ac ymarferiadau gwahanol. O ganlyniad, mae nifer o ysgolheigion wedi awgrymu nad oes 'Cristnogaeth' unigol ond nifer o 'Gristnogaethau'. Y cwestiwn sydd yn dilyn, felly, yw a oes rhywbeth sydd yn cysylltu'r patrymau gwahanol hyn? I raddau, yr hyn sydd yn cysylltu'r patrymau hyn yw Iesu Grist a'i ddysgeidiaeth, ei fywyd, ei farwolaeth a'i atgyfodiad. Yr hyn sydd wedi achosi'r gwahaniaethau yn y traddodiadau hyn yw sut dylid dehongli ei ddysgeidiaeth, ei fywyd, ei farwolaeth a'i atgyfodiad.

Iesu

Yn ôl Cristnogaeth, Iesu yw'r 'Crist' (sydd yn rhoi'r enw i'r grefydd ei hun). Mae'r enw 'Iesu Grist' ynddo'i hun yn arwyddocaol. Addasiad Groegaidd o'r enw Hebraeg *Yeshua* (neu Joshua) yw Iesu, ac ystyr yr enw hwnnw yw 'mae Yahweh (Duw) yn achub'; 'Crist' yw'r gair Groegaidd am 'eneiniedig' ac mae'n cyfateb â'r gair Hebraeg 'Meseia'. Felly, Iesu Grist yw'r un eneiniedig a thrwyddo mae Duw yn achub y ddynolryw. Ond mae'r enw hefyd yn lleoli Iesu yn sustem gredu'r Iddewon yn ogystal â'r Cristnogion. Datganodd proffwydi'r Hen Destament y byddai Duw yn anfon ei 'Meseia' – yr un eneiniedig – a fyddai'n achub cenedl Israel ac yn arwain y bobl yn ôl i'r cyfamod (cytundeb) gyda Duw. I'r Iddewon, nid yw'r Meseia eto wedi ymddangos. I Gristnogion, Iesu yw'r Meseia.

Er mwyn deall Cristnogaeth, mae'n rhaid gofyn 'Pwy yw Iesu?' Trown i ddechrau i'r Testament Newydd yn y Beibl. Yr efengylau yw'n prif ffynhonnell am wybodaeth am fywyd Iesu. Mae pedair efengyl, ac er bod pob un yn rhannu, mwy na lai, ffeithiau am ddysgeidiaeth a bywyd Iesu, maent hefyd yn pwysleisio agweddau gwahanol o'i weinidogaeth. O ganlyniad nid yw'r efengylwyr yn cynnig bywgraffiadau syml yn ystyr modern y gair. Yn hytrach, maent yn portreadu hanes sydd yn hawlio ymateb gan eu darllenwyr. Maent yn datgan y 'newyddion da' (εὐαγγέλιον – efengyl) am weithredoedd Duw drwy Iesu ac maent yn hawlio ymateb gan eu darllenwyr. Yn ôl Linda Woodhead: 'The common narrative thread reflects the gospels' common purpose: to persuade that Jesus was no mere mortal, that he was uniquely favoured by God that he has transcended the limitations of normal human life, and that those who dedicate their lives to him may share in the eternal life he now enjoys'.¹

Mae'r efengylau yn ceisio cyflawni dau beth. Yn gyntaf, maent yn sefydlu bod Iesu yn athro ac yn weithredwr gwyrthiau yng Ngallilea. Wedyn, maent yn symud tuag at ddiwedd glo lle mae'r stori yn symud i Jerusalem, lle mae'r awdurdodau yn dechrau amau amcanion ei ddysgeidiaeth ac yn cynllwynio i sicrhau ei ddiennyddiad. Maent yn dod i ben drwy hawlio bod Iesu wedi atgyfodi o'r bedd.

Yn eu hymgais i ddangos bod Iesu wedi cael ei ddewis gan Dduw (a gellir deall hyn mewn gwahanol ffyrdd), troes yr efengylwyr at bedwar peth:

1. Dysgeidiaeth Iesu
2. Straeon am Iesu'n perfformio gwyrthiau
3. Yr hanes am Iesu'n atgyfodi o'r bedd
4. Y ddadl bod ei fywyd a'i farwolaeth yn cyflawni proffwydoliaeth

¹ Linda Woodhead, *Christianity: A Very Short Introduction* (Oxford; Oxford University Press, 2004), tt. 10-11.

Mae'n eglur y cred yr efengylwyr bod gan Iesu berthynas unigryw gyda Duw. Tuedda gweddill y Testament Newydd i bwysleisio ei ddwyfoldeb. Yn nhyb Paul, Iesu yw'r 'Arglwydd' sydd bellach yn trigo yn y nefoedd ar law dde Duw'r Tad. Mae llyfr Daguddiad yn portreadu Iesu fel yr Oen nefol sydd yn sefyll yn ymyl gorsedd Duw ac sydd yn dychwelyd i'r ddaear ar ddiwedd amser fel y barnwr i bob dim. O ganlyniad: 'Those who compiled [y Testament Newydd] ... were the champions of a version of Christianity that wished to stress the divinity of Christ and the almighty power of the God on whose right hand the Son now sits'.² Yn fwy na neb, dyma'r Gristnogaeth a hyrwyddwyd gan yr Apostol Paul.

For Paul, Jesus is connected to God in a way in which no other human being ever has been, can be, or will be. He is not in the heavens with God because God chose to dignify his humanity – he was with God from the beginning of time and all things were created in and through him. He is, in other words, nothing less than the ordering principle of the universe, the timeless divine wisdom by and through which all things were made, and the image of that perfect divine humanity that is the goal and purpose of the whole creation.³

Deuai'r addasiad hwn o Gristoleg (y ddysgeidiaeth am berson a gwaith Crist) i ddominyddu uniongredd Cristnogol yn y canrifoedd ar ôl marwolaeth Crist. Roedd opsiynau eraill ar gael yn ystod y cyfnod hwnnw, er enghraifft nad oedd Iesu ond yn ddynol (Ariaeth, yn ddiweddarach) neu ei fod yn ddyn a ogoneddwyd yn arbennig gan Dduw, neu ei fod yn ddwyfol a daeth i'r byd i helpu pobl eraill i fod yn ddwyfol (Gnosticiaeth). Gwrthodwyd y Cristolegau amgen hyn fel heresiau.

Crynodeb

1. Mae Iesu'n ganolog i Gristnogaeth, ond mae barnau gwahanol amdano;
2. Mae'r efengylau yn awgrymu cysylltiad unigryw rhyngddo a Duw, fel a welir yn ei ddysgeidiaeth, ei wyrthiau, ei atgyfodiad a'r cyflawniad o broffwydoliaeth;
3. Mae'r Testament Newydd yn symud tuag at y syniad o 'Dduw-ddyn' gyda phwyslais ar y dwyfol;
4. Gellir gweld Paul fel rhywun canolog yn y symudiad hwn gyda Christnogaeth 'Gatholig' yn gwrthod llawer o'r agweddau dynol a hanesyddol;

² Woodhead, *Christianity: A Very Short Introduction*, t. 15.

³ Woodhead, *Christianity: A Very Short Introduction*, t. 20.

5. Mae agweddau eraill wedi parhau dros y blynyddoedd, ond yr agwedd uniongred yw bod Iesu'n 'Dduw-ddyn' a chadarnhawyd hyn gan Gyngorau Ecwmenaidd yr Eglwys.